OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1039 (Cy.111)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Wedi'u gwneud - -		*am 10.20 ar 10 Ebrill 2002*
Yn dod i rym - -		*am 12.00 ar 10 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â Pholisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enw, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru, a deuant i rym am 12.00 ar 10 Ebrill 2002.

Diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000(**3**) mewn perthynas â Chymru yn unol â darpariaethu canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 3, Rhan I—

(a) ym mharagraff 9, yn lle'r geiriau "and 2002/153/EC (OJ No. L50, 21.2.2002, p.98);" rhoddir y geiriau—

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2000/1673; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/2266, O.S. 2000/2524, O.S. 2000/2900 ac, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2002/430 (Cy.52).